**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Cronfa Buddsoddi i Arbed

Mawrth 2013

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8409
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: PwyllgorCyllid@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Cronfa Buddsoddi i Arbed

Mawrth 2013

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Y Pwyllgor Cyllid

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Rôl y Pwyllgor Cyllid yw gweithredu'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 19. Mae hyn yn cynnwys ystyried unrhyw ddefnydd ar adnoddau gan Gomisiwn y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, ac yn benodol cyflwyno adroddiad yn ystod cylch blynyddol y gyllideb. Gall y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwariant o Gronfa Gyfunol Cymru.

### Aelodau cyfredol y Pwyllgor



**Jocelyn Davies (Cadeirydd)**
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



**Christine Chapman**
Llafur Cymru
Cwm Cynon



**Mike Hedges**
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



**Julie Morgan**
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd



**Peter Black**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gorllewin De Cymru



**Paul Davies**
Ceidwadwyr Cymreig
Preseli Sir Benfro



**Ann Jones**
Llafur Cymru
Dyffryn Clwyd



**Ieuan Wyn Jones**
Plaid Cymru
Ynys Môn

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd / Crynodeb** ..... 5

**Argymhellion y Pwyllgor** ..... 7

**1. Cefndir** ..... 9

Pwy ydym ni? ..... 9

Pam y bu i ni edrych ar gynllun Buddsoddi i Arbed? ..... 9

Sut y bu i ni gynnal yr ymchwiliad? ..... 9

**2. Hanes Buddsoddi i Arbed** ..... 11

Y dechrau ..... 11

Beth yw diben y Gronfa? ..... 11

Y broses asesu ar gyfer cynigion i'r Gronfa ..... 13

Gwerthusiad hyd yma ..... 16

**3. Ceisiadau** ..... 19

Codi proffil ..... 19

Gwaith papur ..... 19

Cylchau cynnig â thema ..... 20

Y trothwy o £200,000 ..... 20

Profiad 'Dragon's Den' ..... 22

**4. Gwariant a monitro** ..... 24

Pa mor effeithiol y caiff prosiectau eu monitro? ..... 24

Canfod buddion Buddsoddi i Arbed ..... 26

Cydweithredu ..... 27

**5. Ad-dalu a rhannu arfer gorau** ..... 28

A yw prosiectau yn ad-dalu ar amser? ..... 28

A yw prosiectau da yn cael eu hailadrodd ar draws y sector? ..... 28

Buddsoddi i Arbed neu gronfa gydweithio ranbarthol? ..... 31

**Atodiad A** ..... 33

**Atodiad B** ..... 34

**Tystion** ..... 35

**Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig** ..... 36

## Rhagair y Cadeirydd / Crynodeb

Wrth i ni graffu ar y gyllideb ar ddechrau'r flwyddyn, roedd un term a oedd yn codi'n rheolaidd o amrywiaeth o ffynonellau: Buddsoddi i arbed.

Yn naturiol, felly, daethpwyd i'r penderfyniad y byddai'n werth treulio ychydig o amser y Pwyllgor yn darganfod rhagor am y cynllun, pam yr oedd cymaint o ganmoliaeth iddo, ac a oedd y cynllun mor llwyddiannus ag y nodwyd ei fod mewn gwirionedd.Yr adroddiad hwn yw penllanw'r ymchwiliad hwnnw.

Rwy'n falch o nodi bod y Pwyllgor wedi mynd y tu hwnt i'r Senedd er mwyn casglu gwybodaeth ar gyfer ein hadroddiad. Bu aelodau'r Pwyllgor yn ymweld â hanner dwsin o brosiectau yng Nghymru i weld pa effaith y gallai'r prosiectau hyn ei chael ar lawr gwlad.

Nid oes amheuaeth nad yw'r cysyniad y mae'r cynllun yn seiliedig arno – o wario llai heddiw i arbed llawer yfory – yn un sy'n apelio at bob Aelod Cynulliad beth bynnag fo'u barn wleidyddol. Mae'n anhebygol y bydd unrhyw ffynonellau sylweddol newydd o arian ar gael i Gymru yn y dyfodol agos, felly mae gwneud y gorau o'r arian sydd ar gael i ni yn hanfodol ar gyfer ein llwyddiant yn y dyfodol.

O'n hymchwiliad, rydym wedi dysgu bod buddsoddi i arbed yn gweithio. Rydym wedi clywed a gweld sut mae gwasanaethau wedi'u trawsffurfio a sut y bu'n bosibl ad-dalu ac ailgylchu y benthyciadau cychwynnol drwy'r arbedion a wnaed. Mae'r Gweinidog Cyllid yn hoff o ddweud mai hwn yw'r unig gynllun o'i fath yn y Deyrnas Unedig. Os yw hynny'n wir, mae angen i ni hyrwyddo mwy ar y cynllun hwn yng Nghymru a thu hwnt.

Er ei holl rinweddau, fodd bynnag, nid yw'n ddatrysiad i bob problem ac nid yw'r broses yn berffaith ychwaith. Rydym yn gwneud nifer o argymhellion a fydd, yn ein barn ni, yn sicrhau bod y cylch rhinweddol o fenthyciadau ac ad-daliadau yn gweithio ochr yn ochr â chylch sydd yr un mor rinweddol o ddysgu a gwelliannau i broses a chanlyniadau.

Mae'r cynllun Buddsoddi i Arbed yn un da, ond nid yw hynny'n golygu na allai fod yn well.

Jocelyn Davies
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

## Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru i'w gweld isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth sy'n cyd-fynd â'r argymhellion a'r casgliadau:

**Argymhelliad 1.** Nid oeddem yn gwbl argyhoeddedig ynghylch buddion cylchau cynnig â thema ac, o gofio nad yw'r gronfa buddsoddi i arbed yn un ddi-waelod, rydym yn argymell bod cylchau cynnig yn parhau i gefnogi'r cynigion gorau, waeth beth fo'u cynnwys. (Tudalen 20)

**Argymhelliad 2.** Argymhelliad: Rydym yn argymell y dylid pennu'r trothwy ar £100,000 unwaith eto er mwyn sicrhau nad yw prosiectau sydd â'r gallu i wneud arbedion sylweddol yn cael eu colli.(Tudalen 22)

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod paneli asesu yn cynnwys o leiaf un person sydd â lefel uchel o arbenigedd, yn enwedig yn achos prosiectau a allai fod yn dechnegol eu natur. (Tudalen 23)

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell y dylid cynnal ymweliad â phob prosiect sy'n derbyn nawdd buddsoddi i arbed rhwng 6 a 12 mis ar ôl y taliad cyntaf, neu pan fydd ad-daliadau yn dechrau. Dylai'r ymweliad hwn gynnwys gwerthusiad mwy trylwyr – gwerthuso nid yn unig a yw'r prosiect wedi cyrraedd ei dargedau ariannol yn unig, ond ei effaith gyffredinol ar y gwasanaeth a ddarperir. Byddai ymweliad swyddogol yn galluogi Llywodraeth Cymru i gasglu tystiolaeth y gellid ei defnyddio i hyrwyddo prosiect fel enghraifft i eraill. (Tudalen 25)

**Argymhelliad 5.** Roedd y prosiectau buddsoddi i arbed gorau y bu i ni edrych arnynt yn dangos cysylltiad clir rhwng y buddsoddiad a wnaed a'r arbedion a gynhyrchwyd. Er nad oes dwywaith ei bod yn bwysig dod o hyd i arian ychwanegol ar gyfer creu Cyfoeth Naturiol Cymru, nid yw'n glir i ni mai prosiect buddsoddi i arbed oedd hwn. Rydym yn argymell mai dim ond mewn achosion lle mae tystiolaeth gadarn bod arbedion yn cael eu cynhyrchu o fuddsoddiadau y dylid defnyddio cronfeydd buddsoddi i arbed, ac nid ar gyfer achosion lle mae angen arian ychwanegol, sy'n debygol o gynhyrchu arbedion dros amser. (Tudalen 26)

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn parhau i fonitro'r galw am y cynllun. Ar y cyfan, credwn fod hwn yn gynllun gwych sy'n gwella gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n cynhyrchu arbedion gwirioneddol i bwrs y wlad. Ni fyddem am glywed bod cynlluniau a fyddai'n arbed arian yn cael eu dal yn ôl oherwydd diffyg buddsoddiad ysgogi drwy'r cynllun Buddsoddi i Arbed. (Tudalen 28)

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i hyrwyddo astudiaethau achos, yn annog sefydliadau i efelychu cynlluniau llwyddiannus, ac i hyrwyddo Buddsoddi i Arbed drwy'r Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus. (Tudalen 30)

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud mwy o ymdrech i annog sefydliadau addysg a sectorau eraill, sydd y tu allan i'r sectorau llywodraeth leol/GIG craidd, i ddefnyddio'r Gronfa. (Tudalen 31)

**Argymhelliad 9.** Er mai cynllun arbedion sy'n annog cydweithio yw buddsoddi i arbed, rydym yn argymell y dylai'r gronfa gydweithio ranbarthol – er ei bod yn gronfa sy'n canolbwyntio ar gydweithio – gynhyrchu arbedion i ddangos ei bod yn cynnig gwerth am arian. (Tudalen 32)

# 1. Cefndir

**Pwy ydym ni?**

1. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn bwyllgor trawsbleidiol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, sy'n cynnwys Aelodau o bob un o'r pedair plaid wleidyddol sydd wedi'u cynrychioli yn y Cynulliad.

2. Nid yw'r Pwyllgor yn rhan o Lywodraeth Cymru. Yn hytrach, rydym yn gyfrifol am adrodd ar gynigion sy'n cael eu gosod gerbron y Cynulliad gan Weinidogion Cymru sy'n ymwneud â defnyddio adnoddau. Yn ogystal, gallwn ystyried ac adrodd ar unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwariant o Gronfa Gyfunol Cymru, neu sy'n effeithio arno.

**Pam y bu i ni edrych ar gynllun Buddsoddi i Arbed?**

3. Wrth i ni graffu ar y gyllideb ddrafft roedd y cynllun Buddsoddi i Arbed yn codi dro ar ôl tro gan amrywiaeth o ffynonellau. Roedd hi'n amlwg bod y cynllun yn ganolog i ddyheadau Llywodraeth Cymru i wario ei harian yn ddoeth. O ystyried faint o ganmoliaeth sydd i'r cynllun, roeddem am weld a oedd modd cyfiawnhau hynny mewn gwirionedd.

**Sut y bu i ni gynnal yr ymchwiliad?**

4. Lansiodd y Pwyllgor Cyllid ymgynghoriad i Gronfa Buddsoddi i Arbed ym mis Hydref 2012 gyda dyddiad cau o 6 Tachwedd 2012.[1] Roedd yr ymgynghoriad wedi'i anelu at ymgeiswyr cymwys. Y gobaith oedd y byddem yn cael ymatebion gan ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus, ond ymatebion gan ymgeiswyr llwyddiannus oedd y mwyafrif llethol ohonynt.

5. Yn dilyn y cyfnod ymgynghori cychwynnol, buom yn casglu tystiolaeth ysgrifenedig a chlywed tystiolaeth lafar yn ystod sesiynau'r Pwyllgor. Bu aelodau unigol o'r Pwyllgor hefyd yn ymweld â hanner dwsin o brosiectau dros doriad y Nadolig – ceir adroddiadau cryno ar yr ymweliadau hynny yn Atodiad B. Ceir rhestr lawn o'r tystion a'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn Atodiad C.

---

[1] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Ymchwiliad i Gronfa Buddsoddi i Arbed, Ymgynghoriad: Ymchwiliad i'r Gronfa Buddsoddi i Arbed, Hydref 2012 [fel ar 23 Hydref 2012]

6. Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro o amgylch tri cham y broses buddsoddi i arbed: cyn (y broses ymgeisio), yn ystod (gwario a monitro) ac ar ôl (ad-dalu a rhannu arfer gorau).

# 2. Hanes Buddsoddi i Arbed

## Y dechrau

7. Mae'r Gronfa Buddsoddi i Arbed yn fenter gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnig cymorth ar gyfer cyflwyno dulliau newydd a/neu dulliau a brofwyd o weithio fel y gellir gwneud arbedion wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a bod yn fwy effeithlon ac effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau.

8. Sefydlwyd y Gronfa yn 2009, gan y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus (Andrew Davies AC) o'r Llywodraeth flaenorol. Yn ei ddatganiad ym mis Mai 2009, dywedodd:

> "Trwy'r Gronfa, byddaf yn darparu hyd at £60 miliwn a hynny dros ddwy flynedd i gychwyn, sef 2009-10 a 2010-11. Bydd y swm hwn yn cael ei fuddsoddi i gyflawni prosiectau sy'n sicrhau arbedion i ryddhau arian, drwy drawsnewid y modd y mae cyrff cyhoeddus yn gweithredu.
>
> "Bydd y buddsoddiadau o'r Gronfa yn ad-daladwy yn llawn, ni fydd yn rhaid talu llog arnynt, a bydd y cyfnod ad-dalu yn hyblyg. Bydd y dull hwn o fynd ati yn sicrhau bod y Gronfa yn cael ei hail-lenwi ar ôl ein buddsoddiad cychwynnol. Byddwn felly yn gallu parhau i fuddsoddi mewn prosiectau newydd y tu hwnt i ddwy flynedd gyntaf y gronfa.
>
> "Byddwn yn cydweithio'n agos â gwasanaethau cyhoeddus a phartneriaid cymdeithasol i'w hannog i ddatblygu cynigion uchelgeisiol, arloesol a fydd yn ailwampio gweithdrefnau, symleiddio prosesau, cael gwared ar fiwrocratiaeth diangen a datblygu'r agwedd gydweithredol tuag at ddarparu gwasanaethau sydd wedi bod yn sail gyson i'r polisi ar wasanaethau cyhoeddus."[2]

## Beth yw diben y Gronfa?

9. Mae'r cynllun yn agored i holl sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus a gaiff eu hariannu gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys awdurdodau lleol; cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru; cyrff y GIG;

---

[2] Llywodraeth Cymru, Andrew Davies (Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus), Y Gronfa Buddsoddi i Arbed, Datganiad gan y Cabinet, 19 Mai 2009 [fel ar 19 Hydref 2012]

sefydliadau addysg ôl-16; cyrff gwirfoddol sy'n cael nawdd gan Lywodraeth Cymru dros gyfnod o dair blynedd neu grwpiau ambarél sy'n cynrychioli y rhain.

10. Gellir ystyried cynigion gan bartneriaethau strategol eraill yn ogystal. Gall partneriaethau o'r fath gynnwys grwpiau gwirfoddol a chymunedol a chyrff eraill. Mae prosiectau sy'n cefnogi blaenoriaethau strategol ac sy'n sicrhau arbedion sylweddol i ryddhau arian, gan gynorthwyo neu wella gwasanaethau cyhoeddus ar yr un pryd, yn gymwys am arian gan y gronfa (er enghraifft, prosiectau sy'n cynnwys cynnydd o ran effeithlonrwydd o ganlyniad i ailstrwythuro prosesau busnes). Er nad yw'n hanfodol, anogir gwneud cynigion cydweithredol gyda chyrff eraill.

11. Mae canllawiau[3] diweddaraf Llywodraeth Cymru ar gyfer Cylch VII o'r Gronfa yn nodi mai ei hamcanion yw:

- darparu gwell gwasanaethau cyhoeddus yn unol ag agenda effeithlonrwydd a gwella ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus;
- trawsnewid effeithlonrwydd gweithredol gwasanaethau cyhoeddus a chynhyrchu arbedion effeithlonrwydd sylweddol sy'n rhyddhau arian;
- annog cydweithio cryfach ar draws sefydliadau a ffiniau gweinyddol lle mae hynny'n arwain at fanteision mesuradwy i'r modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu;
- hybu cyfleoedd i rannu arfer gorau ac unrhyw wersi a ddysgir o'r prosiectau.

12. Bwriad y Gronfa yw darparu buddsoddiad ysgogi i dalu, yn bennaf, gostau refeniw sy'n gysylltiedig â gweithredu prosiectau o'r fath (a gwaith rhagarweiniol os yw'n berthnasol). Mae dyfarniadau ar gael i ariannu hyd at 75% o gostau gweithredu cymwys y prosiect, ac mae modd ystyried buddsoddiadau gwerth £200,000 neu'n uwch.[4]

13. Mae'n rhaid ad-dalu holl fuddsoddiadau'r Gronfa, ond ni chodir llog. Mae disgwyl i brosiectau ad-dalu'r buddsoddiad yn llawn pan fydd y prosiect yn cyflawni'r manteision a ddisgwylir, o fewn tair blynedd i'r

---

[3] Llywodraeth Cymru, Y Gronfa Buddsoddi i Arbed: Canllawiau (Cylch VII) paragraff 1.2

[4] ibid paragraff 2.2

buddsoddiad cychwynnol fel arfer.[5] Mae hyn yn golygu y gall y Gronfa gael ei hail-lenwi ar gyfer buddsoddiadau mewn blynyddoedd i ddod (tu hwnt i 2010-11).[6] Ym mis Mawrth 2011, nododd y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb ar y pryd (Jane Hutt AC) bod rhywfaint o hyblygrwydd i ddarparu cyllid nad oes angen ei ad-dalu, os caiff meini prawf penodol eu bodloni, ar gyfer prosiectau sydd â manteision ehangach nad ydynt yn arbedion y gellir eu troi'n arian parod.[7]

### Y broses asesu ar gyfer cynigion i'r Gronfa

14. Mae'r Panel Buddsoddi i Arbed[8] yn asesu cynigion yn ôl y meini prawf a nodir isod. Bydd y panel yn rhoi sgôr i brosiectau ar sail y meini prawf hyn, a bydd yn cytuno ar gyngor ynghylch y prosiectau y mae ganddo'r hyder mwyaf yn eu gallu i ddarparu gwell gwasanaethau. Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, bydd yn ymgynghori â rhanddeiliaid a chydweithwyr polisi yn Llywodraeth Cymru ynghylch y cynigion, gan gynnwys ceisio barn Cyngor Prif Swyddog Gwybodaeth Cymru ar bob cynnig TGCh. Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt AC) sy'n gwneud y penderfyniad terfynol am brosiectau llwyddiannus.

15. Caiff prosiectau eu hasesu ar sail:

- y graddau y maent yn hyrwyddo blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella'r sector cyhoeddus;
- y graddau y maent yn cyflawni arbedion effeithlonrwydd (yn enwedig gwerth ac amseriad arbedion effeithlonrwydd sy'n rhyddhau arian), gan barchu'r egwyddor sylfaenol y dylid diogelu gwasanaethau i'r cyhoedd;
- y graddau y maent yn cyd-fynd ag ymrwymiad i grwpiau sy'n arbennig o fregus yn ystod dirwasgiad, ac anghenion y grwpiau hynny o ran gwasanaethau;

---

[5] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, *FIN(3)-02-11 Papur 3: Cyllideb ddrafft 2011-12: Gwybodaeth Bellach gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb* (Saesneg yn unig), Rhagfyr 2010

[6] Llywodraeth Cymru, Andrew Davies (Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus), *Y Gronfa Buddsoddi i Arbed*, Datganiad gan y Cabinet, 19 Mai 2009

[7] Llywodraeth Cymru, Jane Hutt (Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb), *Y Dull o Ddyrannu Cyllid o Gronfeydd wrth Gefn ar gyfer Cefnogaeth Pontio yn 2011-12*, Datganiad (ysgrifenedig) gan y Cabinet, 31 Mawrth 2011

[8] Mae'r Panel yn cynnwys Cyfarwyddwr Cyffredinol Cynllunio Strategol, Cyllid a Pherfformiad a swyddogion o adrannau polisi Llywodraeth Cymru.

- y graddau y maent yn rhoi sail fwy cynaliadwy i wasanaethau yn y tymor canolig a'r tymor hwy, fel eu bod yn gryfach ar ôl i'r dirywiad economaidd ddod i ben; a
- sut gallant sicrhau effeithiau lluosol yn yr economi ehangach.[9]

16. Yn ogystal â'r meini prawf hyn, mae'n rhaid cynnal asesiad darparu o brosiectau,[10] a rhaid eu hasesu yn ôl meini prawf craidd ac ariannol. Maent yn cynnwys:


- eglurder nod y prosiect, y manteision a ragwelir , a chysylltiadau â chanlyniadau targed, safonau a mesurau clir;
- graddau ymrwymiad i'r prosiect, gan gynnwys cefnogaeth ar lefel uwch-swyddogion;
- y graddau y mae'r prosiect yn cyd-fynd yn strategol â'r sefydliadau dan sylw, yn yr ystyr ei fod yn cyd-fynd â'u gweledigaeth a'u gwerthoedd;
- y graddau y mae'r prosiect yn cyd-fynd â pholisïau, cynlluniau a phrosesau busnes a pholisïau, cynlluniau a phrosesau gweithredol sy'n bodoli eisoes;
- y graddau y mae'r cynnig yn cyd-fynd â'r rhaglenni newid/mentrau gwella sydd gan bartneriaid;
- tystiolaeth y bydd y cynnig yn gweithio (ei fod yn hyrwyddo dull sicr o weithio);
- graddau'r risg sy'n gysylltiedig â symud y prosiect yn ei flaen, a'r trefniadau ar gyfer rheoli'r risg honno;
- digonolrwydd y trefniadau ar gyfer rheoli'r prosiect;
- y trefniadau arfaethedig ar gyfer monitro'r prosiect, a'i werthuso wedi hynny, a'r rhaglen newid (gan gynnwys adborth gan ddinasyddion (defnyddiwr gwasanaethau));
- y cyfnod ad-dalu arfaethedig;
- yr enillion ar y buddsoddiad; ac
- yr ychwanegedd ar gyfer cyllid.


---

[9] Llywodraeth Cymru, Y Gronfa Buddsoddi i Arbed: Canllawiau (Cylch VII) paragraff 6.2

[10] Ibid, paragraffau 6.3 a 6.4

**Cylchoedd ariannu blaenorol I i VI (2009 i 2012)**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Ymchwil gymdeithasol – Cronfa Buddsoddi i Arbed: Gwerthusiad Interim, Chwefror 2012, tudalen 20

17. Hyd yma, mae buddsoddiadau o'r Gronfa wedi'u gwneud mewn chwe chylch. Ceir manylion am brosiectau ac arian a ddyfarnwyd ar gyfer:

- Cylchoedd I i III mewn llythyr gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb ar y pryd i'r Pwyllgor Cyllid ym mis Rhagfyr 2010;[11]
- Cylch IV ar wefan Llywodraeth Cymru;[12]
- Cylch V ar wefan Llywodraeth Cymru[13] ac mewn llythyr i'r Pwyllgor Cyllid gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ ym mis Gorffennaf 2012;[14] a

[11] Darparodd y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb lythyr i'r Pwyllgor Cyllid ym mis Rhagfyr 2010 yn nodi manylion am y prosiectau sydd wedi derbyn nawdd o dan y tri chylch cyntaf o'r Gronfa. Ystyrir mai dyma'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael ar gyfer y cylchoedd ariannu hyn a gellir ei gweld yma: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, *FIN(3)-02-11 Papur 3: Cyllideb ddrafft 2011-12: Gwybodaeth bellach gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb* (Saesneg yn unig), Rhagfyr 2010
[12] Llywodraeth Cymru, Y Gronfa Buddsoddi i Arbed, Cylch IV, Mehefin 2011 [fel ar 19 Hydref 2012]
[13] Llywodraeth Cymru, Newyddion, Gweinidog yn cyhoeddi cyllid Buddsoddi i Arbed gwerth £10m, 13 Rhagfyr 2011
[14] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2012-13, Gwybodaeth Ychwanegol, Atodiad B, Gorffennaf 2012

- Cylch VI mewn llythyr i'r Pwyllgor Cyllid gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ ym mis Gorffennaf 2012.[15]

18. Mae'n werth nodi, nad yw'r prosiectau sydd wedi'u manylu yn y cyhoeddiadau cychwynnol, ar wefan Llywodraeth Cymru neu yn ei hadroddiad gwerthuso interim,[16] yn cyfateb, mewn rhai achosion, i'r wybodaeth ddiweddaraf yn llythyr y Gweinidog. Mae'n bosibl mai'r rheswm dros hyn yw, pan benderfynir ynghylch dyfarniad, mae prosiectau'n ddarostyngedig o hyd i achos busnes llawn; y gwnaethpwyd penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â'r prosiect neu bod y dyfarniadau yn adlewyrchu'r flwyddyn pan fo angen y buddsoddiad, yn hytrach na'r dyddiad pan gyhoeddwyd y dyfarniad.

19. Rhwng Cylchoedd I i VI, cafwyd buddsoddiad o £66,472,000 mewn 56 o brosiectau.

### Gwerthusiad hyd yma

20. Ym mis Chwefror 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru werthusiad interim o bedwar cylch cyntaf y Gronfa. Cynhaliwyd y gwerthusiad gan ddadansoddwyr mewnol yn Llywodraeth Cymru yn dilyn arolwg a gafodd 22 o ymatebion gan brosiectau a dderbyniodd nawdd (cyfradd ymateb o 46%); naw o ymatebion gan brosiectau aflwyddiannus (cyfradd ymateb o 7%) a rhanddeiliaid.[17] Mae'r gwerthusiad hefyd yn nodi gofyniad yn y dyfodol i werthuso prosiectau buddsoddi i arbed yn annibynnol pan fydd rhagor ohonynt yn cael eu cwblhau rhwng dechrau a chanol 2013.

21. Gwnaed saith argymhelliad fel rhan o'r gwerthusiad, yn seiliedig ar ei ganfyddiadau. Dyma oedd y saith argymhelliad:

> **Argymhelliad 1**: Mae cefnogaeth gref i barhau â'r Gronfa Buddsoddi i Arbed er mwyn helpu prosiectau ledled Cymru sy'n gwella gwasanaethau cyhoeddus ac yn rhyddhau arian parod. Felly, argymhellir comisiynu gwerthusiad annibynnol o union ganlyniadau'r prosiectau ymhen 12-18 mis (rhwng dechrau a chanol 2013).

[15] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2012-13, Gwybodaeth Ychwanegol, Atodiad A, Gorffennaf 2012
[16] Llywodraeth Cymru, Ymchwil gymdeithasol – Cronfa Buddsoddi i Arbed: Gwerthusiad Interim, Chwefror 2012 [fel ar 19 Hydref 2012]
[17] ibid, tudalen 12

**Argymhelliad 2**: O ystyried y cyfyngiadau benthyca sy'n rheoli'r GIG, dylid cydnabod wrth arfarnu cynigion Buddsoddi i Arbed pa mor allweddol y gall y Gronfa fod i helpu prosiectau sy'n cynnwys y GIG.

**Argymhelliad 3**: Mae angen parhau i annog llywodraeth leol i ymwneud â'r Gronfa, ond gan gofio bod ffynonellau eraill o gyllid ar gael i'r sector.

**Argymhelliad 4**: Dylid parhau i ystyried nifer a gwerth y prosiectau a ariennir yng nghylchoedd y dyfodol, ac effaith hyn ar amlhau arbedion effeithlonrwydd.

**Argymhelliad 5**: Er nad oes problemau mawr yn codi o'r broses gynnig bresennol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gellid ystyried y gwelliannau canlynol:

a) Cyflwyno themâu ar gyfer pob cylch cynnig i dargedu blaenoriaethau penodol Llywodraeth Cymru.

b) Cyflwyno aelod o'r tu allan i Lywodraeth Cymru i banel swyddogion Buddsoddi i Arbed.

c) Sut y caiff cynigion Buddsoddi i Arbed eu harfarnu ochr yn ochr â mathau eraill o gymorth gan Lywodraeth Cymru, megis cyllid Cyfalaf a Gedwir yn Ganolog.

ch) Adolygu'r amserlen ar gyfer cyflwyno datganiadau o ddiddordeb.

**Argymhelliad 6**: Dylid ymchwilio'n fanylach i ychwanegedd cyllid Buddsoddi i Arbed mewn unrhyw werthusiad annibynnol yn y dyfodol.

**Argymhelliad 7**: Dylid ystyried ffyrdd o annog rheolwyr prosiect i hunanwerthuso'u prosiectau, gyda chymorth ar ffurf canllaw a/neu ddulliau a thechnegau safonedig, i ddangos manteision ac arbedion.[18]

22. Dangosodd y gwerthusiad mai gan y GIG y cafwyd y nifer mwyaf o geisiadau, ac yna gan lywodraeth leol, ond bod nifer y ceisiadau

[18] Llywodraeth Cymru, Ymchwil gymdeithasol – Cronfa Buddsoddi i Arbed: Gwerthusiad Interim, Chwefror 2012, tudalen 8 [fel ar 19 Hydref 2012]

llwyddiannus yn llawer agosach: 23 yn achos y GIG a 21 yn achos llywodraeth leol. Mae'r gwerthusiad yn nodi cyfran pob sector o'r cyllid buddsoddi i arbed; dangosir hyn yn nhabl 3 isod.

**Tabl 3 – Cyfran pob sector o'r cyllid buddsoddi i arbed**

| | *£m* | |
|---|---|---|
| Sector | Funding awarded | % of total funding |
| NHS | 22.1 | 56% |
| Local Government | 12.3 | 31% |
| Local Government and partners | 4.3 | 11% |
| Other (inc. Higher Education) | 0.8 | 2% |
| **Total** | **39.5** | **100%** |

Ffynhonnell: Ailgrëwyd gan y Gwasanaeth Ymchwil o dabl yn Llywodraeth Cymru, Ymchwil gymdeithasol – Cronfa Buddsoddi i Arbed: Gwerthusiad Interim, Chwefror 2012, tudalen 20 [fel ar 19 Hydref 2012]

23. Gwnaethpwyd sylwadau gan randdeiliaid a ymatebodd i'r gwerthusiad am benderfynyddion llwyddiant y Gronfa. Dangosir hyn yn nhabl 4, a bu'r Pwyllgor yn archwilio'r cynnwys yn ystod y sesiynau tystiolaeth yn dilyn y bwriad i drafod unrhyw rwystrau posibl i gael mynediad i'r Gronfa.

**Tabl 4 – Penderfynyddion llwyddiant y Gronfa**

| Enablers | Barriers |
|---|---|
| Dedicated Invest-to-Save team that has on-going dialogue with funded organisations | Bids are sometimes rushed (could be mitigated by announcing the cycle of bidding rounds in advance) |
| Regular feedback and monitoring of projects | Doubt over the extent of additionality of smaller projects |
| Rigorous but flexible bidding process | Local government not on board as much as wished - they have the option to borrow from elsewhere and sometimes low interest rates may be preferable to the repayment terms of Invest-to-Save |
| Ministerial buy-in and leadership has helped build profile of the Fund | |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Ymchwil gymdeithasol – Cronfa Buddsoddi i Arbed: Gwerthusiad Interim, Chwefror 2012, tudalen 30 [fel ar 19 Hydref 2012]

## 3. Ceisiadau

### Codi proffil

24. Mae poblogrwydd y cynllun ymysg Gweinidogion, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn awgrymu bod proffil uchel ganddo. Fodd bynnag, dim ond un cais llwyddiannus sydd wedi bod hyd yn hyn gan sefydliad addysg uwch (Prifysgol Fetropolitan Caerdydd). Nid yw'n glir pam nad yw sectorau y tu allan i lywodraeth leol a'r GIG mor frwdfrydig o ran cyflwyno ceisiadau i'r cynllun. Cafwyd tystiolaeth gan gynrychiolwyr Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn nodi mai drwy ddamwain, bron, y daethant i wybod am y cynllun. Yn ei thystiolaeth, derbyniodd y Gweinidog fod angen iddynt wneud mwy i sicrhau bod grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn gwybod bod y cynllun yn bodoli.[19]

25. Mae'r dystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau[20] yn awgrymu bod y cynllun wedi cael ei hyrwyddo'n helaeth yng Ngrŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus – sy'n dod ag arweinwyr o wahanol wasanaethau cyhoeddus ynghyd.

### Gwaith papur

26. Awgrymodd nifer o dystion fod posibilrwydd i'r broses o wneud cais fod yn drech na rhywun, ond nid oedd neb i weld yn cael trafferthion penodol, ac roedd geiriau fel "trylwyr" a "cadarn" yn cael eu defnyddio'n aml.

27. Roedd canmoliaeth i Richard Clarke a'i dîm am roi cymorth i ymgeiswyr drwy'r broses hon. Dywedodd Fiona Jenkins o Fwrdd Iechyd Lleol Caerdydd a'r Fro:

> "To go at a pace and scale, we looked at the invest-to-save mechanism and made contact with Richard Clarke, who has been extremely helpful in guiding us through the process."

28. Dywedodd Jane Hutt wrth y Pwyllgor:

> "The invest-to-save process has been kept as simple and accessible as possible. It has been interesting and valuable that

[19] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 16 Ionawr 2013, paragraff 90
[20] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, llythyr gan Carl Sargeant at Jocelyn Davies, 5 Ionawr 2013

> the Committee has gone out to test this with organisations that either have been involved or are considering being involved."[21]

### Cylchau cynnig â thema

29. Cafwyd tystiolaeth o blaid ac yn erbyn cynigion â thema. Nododd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro y manteision sy'n gysylltiedig â phrosiectau tebyg yn cael eu cyflwyno ar yr un pryd,[22] ond roedd cynigwyr llai yn pryderu y gallai cylch â thema beri i brosiect da fod yn aflwyddiannus gan nad oedd yn cyd-fynd â'r thema.

**Nid oeddem yn gwbl argyhoeddedig ynghylch buddion cylchau cynnig â thema ac, o gofio nad yw'r gronfa buddsoddi i arbed yn un ddi-waelod, rydym yn argymell bod cylchau cynnig yn parhau i gefnogi'r cynigion gorau, waeth beth fo'u cynnwys.**

### Y trothwy o £200,000

30. Mae pedwerydd argymhelliad Llywodraeth Cymru yn ei gwerthusiad mewnol ei hun (gweler pennod 2) yn nodi:

> Dylid parhau i ystyried nifer a gwerth y prosiectau a ariennir yng nghylchoedd y dyfodol, ac effaith hyn ar amlhau arbedion effeithlonrwydd.

31. O ganlyniad i hyn, penderfynodd Llywodraeth Cymru ddyblu y trothwy ar gyfer cynigion o £100,000 i £200,000.

32. Aeth Richard Clarke, Pennaeth uned Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru, yn ei flaen i ddweud:

> "As we have progressed with invest-to-save, what we have noticed is that the more strategic projects—normally the higher value projects—bring greater return in value-for-money terms, and therefore a de minimis threshold was introduced at round 3, initially at £100,000. When the interim evaluation was undertaken, it suggested that that might be looked at again; we did so, and the threshold for the last funding round was

---

[21] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 16 Ionawr 2013, paragraff 11

[22] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2012, paragraff 212

> increased to £200,000. So, we are not considering projects below that threshold."[23]

33. Ni fyddai nifer o gynigion blaenorol a fu'n llwyddiannus wedi cyrraedd y trothwy o £200,000, gan gynnwys:

- cyflwyno systemau pweru solar ffotofoltäig yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru (buddsoddiad o £90,000 gydag arbedion blynyddol o £20,000);
- cyflwyno system dreuliau electronig integredig y GIG ar y we (buddsoddiad o £125,000 gydag arbedion blynyddol o dros £400,000 o 2013-14 ar yr adeg y gwnaed y cyhoeddiad);
- datblygu'r ddarpariaeth o ofal cofleidiol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (buddsoddiad o £106,000 gydag arbedion o £1.2 miliwn dros dair blynedd ar yr adeg y gwnaed y cyhoeddiad);
- prosiect caffael ar y cyd ar gyfer lleoliadau gwasanaethau diogel i gleifion gan GIG Cymru (buddsoddiad o £169,000 gydag arbedion o £3 miliwn dros ddwy flynedd ar yr adeg y gwnaed y cyhoeddiad).

34. Mewn tystiolaeth, nododd nifer o dystion bryder am y ffaith y byddai hyn yn cadw prosiectau llai draw. Dywedodd Dr Rosetta Plummer o Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru bod hyn yn destun gofid.

> "Yes, it is regrettable if the threshold is raised to the point of excluding something like this [prosiect yr Ardd Fotaneg], which was so obviously, in our view, delivering to core Government policy and the climate change agenda, value-for-money investment, et cetera."[24]

35. Dywedodd David Sutherland, Pennaeth Technoleg, Eiddo a Gwasanaethau Cwsmeriaid yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wrthym y dylid canolbwyntio ar yr arbedion, yn hytrach nag am faint o arian y gwnaed cais amdano.[25]

---

[23] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2012, paragraff 90
[24] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2012, paragraff 120
[25] ibid, paragraff 22

36. Fodd bynnag, roedd y dystiolaeth gan fyrddau iechyd lleol – sef y sector sydd wedi cael y mwyaf o nawdd buddsoddi i arbed – yn fwy cadarnhaol ynghylch cael ymdriniaeth fwy strategol.

37. Awgrymodd Fiona Jenkins, Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddor Iechyd o Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro y gellid talu cynigion â gwerth is drwy ddefnyddio ffynonellau sy'n bodoli eisioes, a defnyddio'r Gronfa Buddsoddi i Arbed ar gyfer prosiectau strategol.

38. Roeddem yn pryderu y gallai codi'r trothwy rwystro ceisiadau cwbl haeddiannol – yn enwedig gan gyrff llai sydd â chyllidebau llai.

39. O ganlyniad i godi'r trothwy, sylwom hefyd fod un o'r prosiectau sy'n mynd drwy'r system ar hyn o bryd yn bwndelu ceisiadau er mwyn cyrraedd y trothwy newydd.

**Argymhelliad: Rydym yn argymell y dylid pennu'r trothwy ar £100,000 unwaith eto er mwyn sicrhau nad yw prosiectau sydd â'r gallu i wneud arbedion sylweddol yn cael eu colli.**

### Profiad 'Dragon's Den'

40. Mae asesiad Llywodraeth Cymru o geisiadau yn cynnwys cyfarfod wyneb yn wyneb â'r panel asesu. Cyfeiriodd rhai tystion at hyn fel sefyllfa "Dragon's Den" ar ôl rhaglen deledu y BBC lle mae entrepreneuriaid newydd yn gwneud cais am nawdd gan fuddsoddwyr.

41. Yn ystod yr asesiad, mae cynrychiolwyr ar ran y cynnig yn trafod eu cais gyda'r panel.

42. Fel gyda'r gwaith papur, yn gyffredinol, roedd tystion yn poeni mwy y gallai beri gofid i bobl eraill yn hytrach na'r ffaith ei fod yn cael yr effaith honno arnyn nhw.

43. Dywedodd Dr Plummer o Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru bod y gwaith craffu yn drylwyr, ond yn deg. Dywedodd:

> "It certainly was not *Dragon's Den*. It was rigorous scrutiny, but many people are not used to being faced by a board, and so for some that could have been a barrier."[26]

[26] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2012, paragraff 124

44. Pwysleisiodd Jane Hutt y gwaith a gafodd ei wneud er mwyn ceisio gwneud y broses yn llai tebygol o beri gofid. Dywedodd:

> "I would hope that it was not daunting. As a result of feedback on people's experience of the panel, we have given more guidance on what to expect from panel meetings. They are not meant to be formal interviews… but are about discussing aspects of the projects and clarifying whether they fit the criteria and who is going to take responsibility for taking them forward. It is meant to be a non-bureaucratic mechanism: rather than more form filling."[27]

45. Ychwanegodd Richard Clarke:

> "The whole idea of the panel is to have a conversation. It used to have this stigma of being like Dragons' Den, but that is not where we are with this."[28]

46. Rydym yn fodlon bod y Llywodraeth wedi ymdrechu i wneud y broses yn llai brawychus, ond gan sicrhau ei bod yn parhau yn un gadarn. Credwn mai un maes y gellir ei wella yw maes arbenigedd mewn pwnc penodol.

47. Ar ei hymweliad â phrosiect Uned Cymorth Rhagnodi Dadansoddol Cymru (WAPSU), dywedodd Julie Morgan AC eu bod wedi gorfod treulio llawer o amser yn esbonio'u prosiect i'r panel.

**Rydym yn argymell bod paneli asesu yn cynnwys o leiaf un person sydd â lefel uchel o arbenigedd, yn enwedig yn achos prosiectau a allai fod yn dechnegol eu natur.**

[27] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 16 Ionawr 2013, paragraff 64
[28] Ibid, Cofnod y Trafodion, 16 Ionawr 2013, paragraff 66

# 4. Gwariant a monitro

**Pa mor effeithiol y caiff prosiectau eu monitro?**

48. Roedd y dystiolaeth yn awgrymu nad oedd y gwaith monitro yn rhy feichus. Nododd y mwyafrif o'r tystion fod mesurau craffu tebyg, os nad uwch, ganddynt fel rhan o'u rheolaeth fewnol.

49. Fodd bynnag, roeddem yn pryderu am un enghraifft gan gyngor Castell-nedd Port Talbot, lle cafodd nawdd buddsoddi i arbed ei ddefnyddio i gyflwyno systemau darbodus i'w wasanaethau plant.

**Astudiaeth Achos:**

Teitl y prosiect: Adolygiad Systemau Darbodus o Wasanaethau Asesu a Rheoli Achosion Plant a Phobl Ifanc

Prif sefydliad: Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Nod ac amcanion y prosiect: Lleihau'r pwysau ar wasanaethau gwaith cymdeithasol plant drwy fireinio'r systemau y mae staff yn eu defnyddio i asesu a rheoli.

Cafodd y prosiect hwn nawdd o £333,723 o'r Gronfa Buddsoddi i Arbed. Yn ogystal â gwaith arferol buddsoddi i arbed o fonitro ac adrodd am y prosiect, roedd adran gwasanaethau cymdeithasol Llywodraeth Cymru hefyd yn cadw golwg ar gynnydd y cynllun i weld a oedd gwersi y gellid eu rhannu ag awdurdodau lleol eraill.

Cyfarfu Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn breifat â Mr Tony Clements, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, i drafod y materion a oedd yn gysylltiedig â'n ymchwiliad.

Roedd adroddiad gwerthuso Prifysgol Abertawe ym mis Tachwedd 2011, a oedd yn edrych ar gam cyntaf y cynllun, yn gadarnhaol iawn gan ddweud bod gan y cynllun botensial i drawsnewid y ffordd y caiff gwasanaethau plant eu darparu. Fodd bynnag, ar ôl i'r ail gam ddechrau, daeth problemau i'r amlwg a rhoddwyd gorau i'r cynllun y flwyddyn ganlynol.

Mae adroddiad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru,[29] o fis Tachwedd 2012, yn dweud:

> "Nid yw'r rhaglen drawsnewid a moderneiddio ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol plant, sydd wedi bod yn flaenoriaeth i Gastell-nedd Port Talbot, wedi cyflawni'r gwelliannau oedd eu hangen. Mae'r model 'systemau' o ddarparu gwasanaethau, a gyflwynwyd ar draws y gwasanaethau plant yn 2011, wedi arwain at ymarfer anghyson ac, mewn rhai achosion, ymarfer anniogel.[30]

Holodd y Pwyllgor a oedd y gwaith monitro yn canolbwyntio ar ad-daliadau ariannol ar draul effaith. Dywedodd y Gweinidog Cyllid:

> "Lessons have been learned as a result of this project and as a result of the evaluation."[31]

50. Mae profiad Castell-nedd Port Talbot yn gwbl groes i weddill y dystiolaeth a gafwyd am gynlluniau buddsoddi i arbed. Yn ein barn ni, nid y ffaith mai cynllun a gafodd nawdd gan y Gronfa Buddsoddi i Arbed a barodd iddo fethu, hynny yw, byddai unrhyw ddull o ariannu wedi dod i'r un canlyniad. Er bod yr achos hwn yn dangos methiannau, nid ydym yn credu eu bod yn dangos gwendid sylfaenol yn y cynllun Buddsoddi i Arbed, er eu bod yn dangos yr angen i fonitro y tu hwnt i'r ochr ariannol yn unig.

51. Roedd eu tystiolaeth yn cefnogi'r ffaith mai anaml roedd y gwaith monitro yn mynd y tu hwnt i adolygu'r gwaith papur yn chwarterol.[32]

**Rydym yn argymell y dylid cynnal ymweliad â phob prosiect sy'n derbyn nawdd buddsoddi i arbed rhwng 6 a 12 mis ar ôl y taliad cyntaf, neu pan fydd ad-daliadau yn dechrau. Dylai'r ymweliad hwn gynnwys gwerthusiad mwy trylwyr – gwerthuso nid yn unig a yw'r prosiect wedi cyrraedd ei dargedau ariannol yn unig, ond ei effaith gyffredinol ar y gwasanaeth a ddarperir. Byddai ymweliad swyddogol yn galluogi Llywodraeth Cymru i gasglu tystiolaeth y gellid ei defnyddio i hyrwyddo prosiect fel enghraifft i eraill.**

---

[29] http://cymru.gov.uk/docs/cssiw/report/121116nptcy.pdf
[30] Ibid, paragraff 9
[31] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 16 Ionawr 2013, paragraff 145
[32] FIN(4) 03-13 (Papur 4) – Ymweliadau Buddsoddi i Arbed

## Canfod buddion Buddsoddi i Arbed

52. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth fod cymhlethdodau'n rhan o'r broses asesu, o ran canfod y buddion hynny a oedd yn deillio'n uniongyrchol o'r buddsoddiad o'r Gronfa gan brosiectau mwy cymhleth.

53. Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro:

> "….but the challenge is around how to demonstrate what different types of model will deliver in X pounds. That is the bit that we have been working through. So, when we submitted our invest-to-save bid, we had a discussion with Richard [Clarke] and the team to say that that was the really big business case that we needed to develop. It is fair to that it has been quite challenging to develop that business case, but our intention is that it will be completed before Christmas."[33]

54. Mae'r broses o greu yr un corff amgylcheddol, Cyfoeth Naturiol Cymru, wedi ei ariannu[34] gan nifer o ffynonellau gan gynnwys cymorth grant, cais i'r gronfa gyfalaf, buddsoddi i arbed ac yn y blaen. Yn ei dystiolaeth lafar, nododd Cyfoeth Naturiol Cymru ei bod yn anodd cysylltu pob un o'r buddion â'r ffynonellau unigol fel rhan o'r broses werthuso.

55. Dywedodd:

> "The benefits, as was said before, are about £160 million over the 10 year period, of which £130 million are cash-releasing benefits. As Gretel said before, it is very hard to tie some of those benefits to this invest-to-save specifically…"[35]

**Roedd y prosiectau buddsoddi i arbed gorau y bu i ni edrych arnynt yn dangos cysylltiad clir rhwng y buddsoddiad a wnaed a'r arbedion a gynhyrchwyd. Er nad oes dwywaith ei bod yn bwysig dod o hyd i arian ychwanegol ar gyfer creu Cyfoeth Naturiol Cymru, nid yw'n glir i ni mai prosiect buddsoddi i arbed oedd hwn.**

---

[33] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2012, paragraff 206
[34] Llywodraeth Cymru, Un Corff Amgylcheddol: Atodiadau'r Achos Busnes, Atodiad 18, tudalen 204, Tachwedd 2011
[35] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2012, paragraff 45

**Rydym yn argymell mai dim ond mewn achosion lle mae tystiolaeth gadarn bod arbedion yn cael eu cynhyrchu o fuddsoddiadau y dylid defnyddio cronfeydd buddsoddi i arbed, ac nid ar gyfer achosion lle mae angen arian ychwanegol, sy'n debygol o gynhyrchu arbedion dros amser.**

### Cydweithredu

56. Cafwyd tystiolaeth gan fyrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol ynghylch yr anhawsterau o gydweithredu. Er ei bod yn ymddangos bod y ddau o blaid y cysyniad o gydweithredu, roeddent yn ofni bod y naill yn ceisio cael y llall i dalu costau. Ceir anhawster hefyd wrth rannu arbedion a sicrhau bod pob parti yn talu'r hyn y mae'n gyfrifol amdano, ac yn cael yr arbedion sy'n ddyledus iddo.

57. Un awgrym oedd casglu cyllidebau ynghyd. Fodd bynnag, rydym yn amau y byddai'r amheuaeth eu bod 'nhw' yn cael rhagor o fuddiannau, neu'n talu llai i mewn, na 'ni' yn parhau heb ymddiriedaeth ehangach. Gallai hwn fod yn faes ffrwythlon ar gyfer cynllun peilot i archwilio a fyddai casglu cyllidebau ynghyd yn gweithio yn ymarferol.

# 5. Ad-dalu a rhannu arfer gorau

### A yw prosiectau yn ad-dalu ar amser?

58. Dangosodd y dystiolaeth bod prosiectau yn ad-dalu eu benthyciadau buddsoddi i arbed, ac roeddem yn falch o sylwi, wrth i ni graffu ar y Gyllideb Atodol ar gyfer 2012-13, bod arian buddsoddi i arbed yn cael ei ailgylchu i ariannu prosiectau newydd yn unol â'r disgwyliadau pan sefydlwyd y prosiect.

59. Gofynnodd y Pwyllgor a allai'r ffaith bod ymwybyddiaeth o'r gronfa yn cynyddu beri i'r gyllideb fod yn drech na'r gronfa.

60. Dywedodd y Gweinidog Cyllid: "I have already put more money in to the fund… The more we promote the fund, the more it will be needed and the more difficult decisions will have to be made in terms of priorities."

**Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn parhau i fonitro'r galw am y cynllun. Ar y cyfan, credwn fod hwn yn gynllun gwych sy'n gwella gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n cynhyrchu arbedion gwirioneddol i bwrs y wlad. Ni fyddem am glywed bod cynlluniau a fyddai'n arbed arian yn cael eu dal yn ôl oherwydd diffyg buddsoddiad ysgogi drwy'r cynllun Buddsoddi i Arbed.**

### A yw prosiectau da yn cael eu hailadrodd ar draws y sector?

61. Hyd yn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu tri chyhoeddiad[36] sy'n cynnwys manylion am rai o brosiectau gwella'r sector cyhoeddus sydd wedi cael nawdd Buddsoddi i Arbed. Mae'r astudiaethau achos yn cynnwys manylion am y prosiect; manylion cyswllt ar gyfer unigolion sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r prosiect a gwybodaeth berthnasol am weithredu'r prosiect, pa wersi a ddysgwyd a pha fuddion a gaiff eu darparu.

62. Yn ystod ein hymchwiliad, wrth gysylltu â phrosiectau, daeth i'r amlwg bod manylion cyswllt nifer o'r prosiectau wedi newid yn fuan iawn ar ôl eu cyhoeddi.

---

[36] Llywodraeth Cymru, Manylion y Prosiectau sydd wedi derbyn Cymorth, Buddsoddi i Arbed: Buddsoddi yn y tymor byr er budd y tymor hir, Hydref 2011; Buddsoddi i Arbed 2: Buddsoddi byrdymor ar gyfer buddion hirdymor, Mehefin 2012 a Buddsoddi i Arbed 3: Buddsoddi yn y tymor byr er budd y tymor hir, Hydref 2012 [fel ar 19 Hydref 2012]

63. Yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, *Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus*, mae'n nodi y dylid gwneud mwy i hyrwyddo arfer gorau ac na ddylid cyhoeddi astudiaethau achos yn unig. Nodir yn yr adroddiad:

> Mae angen gwneud mwy na darllen astudiaeth achos er mwyn canfod beth y gellid ei drosglwyddo o un lle i un arall a sicrhau gwelliant. Mae'n gofyn am drafodaeth fanwl a throsglwyddo gwybodaeth a syniadau. Er y ceir rhai cymunedau arfer i drosglwyddo a thrafod arferion, yn gyffredinol nid yw'r rhwydweithiau sydd eu hangen i rannu dysgu yn y fath fodd ar waith.[37]

64. Yn dilyn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, cyhoeddodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ei argymhellion. Yn adroddiad y Pwyllgor mae'n awgrymu y gellid gwneud mwy i hyrwyddo arfer gorau.

65. Mae'n nodi:

> "Rydym yn croesawu camau gan Lywodraeth Cymru i ymgysylltu ag arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i'w hannog i rannu pryderon ac arfer da. Fodd bynnag, rydym yn pryderu bod tystiolaeth yr ymchwiliad yn dangos, er bod pethau da yn digwydd yng Nghymru, nad yw arfer da yn cael ei ddefnyddio'n gyson."[38]

66. Wrth holi'r Gweinidog Cyllid am sut y gellir bod yn fwy gweithredol wrth hyrwyddo prosiectau llwyddiannus, dywedodd yn ei thystiolaeth lafar:

> "….We will have to do more to present this. The public service leadership group is the right route in many ways because all the leaders are engaged in that and they will see the opportunities to reduce budgets, because this is crucially important in terms of savings and efficiency and of other objectives in terms of tackling energy efficiency. So, anything that we can do as a result of this review and our work in Welsh Government will be helpful."[39]

---

[37] Swyddfa Archwilio Cymru, Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus [paragraff 2.59], 14 Hydref 2011 [fel ar 9 Ionawr 2013]
[38] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus, [paragraff 71], Ebrill 2012 [fel ar 9 Ionawr 2013]
[39] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2012, paragraff 15 [fel ar 9 Ionawr 2013]

67. Yn ei thystiolaeth llafar i'r Pwyllgor ym mis Tachwedd 2012, dywedodd y Gweinidog Cyllid:

> "Taking the Aneurin Bevan health board's medicines management project as an example, if that is driving down prescribing costs in hospitals on one health board area, we should be able to transfer that so that it happens in every hospital."[40]

68. Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr nad oedd wedi cael unrhyw wybodaeth gan Lywodraeth Cymru am sut i hyrwyddo'r gwersi a ddysgwyd ac arfer gorau o'i brosiect Gwella eich Lle a gafodd nawdd yn 2009 o dan Gylch I o'r Gronfa. Dywedodd:

> "Not that I am aware of, although, subsequently, we have been approached, through the Welsh Local Government Association, about using this particular piece of work as a case study with the Wales Audit Office....but that has only happened very recently."[41]

69. Yn ei thystiolaeth, roedd Prifysgol Fetropolitan Caerdydd yn canmol cyfraniad buddsoddi i arbed i'w wasanaeth siop un stop i gefnogi myfyrwyr, parth-g (i-zone).

> "The Welsh Government's Invest-to-save scheme was an important component of the i-zone's development. It is very unlikely that the project would have been implemented without the invest-to-save investment."[42]

70. Er ein bod yn cydnabod bod ffynonellau eraill o arian ar gael i sefydliadau addysg uwch, o ystyried y llwyddiant ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd, mae'n syndod nad yw sefydliadau addysg uwch eraill wedi ymgymryd â phroses debyg.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i hyrwyddo astudiaethau achos, yn annog sefydliadau i efelychu cynlluniau**

---

[40] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2012, paragraff 10 [fel ar 9 Ionawr 2013]
[41] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2012, paragraff 67
[42] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, ymateb Prifysgol Fetropolitan Caerdydd i'r ymgynghoriad

**llwyddiannus, ac i hyrwyddo Buddsoddi i Arbed drwy'r Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus.**

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud mwy o ymdrech i annog sefydliadau addysg a sectorau eraill, sydd y tu allan i'r sectorau llywodraeth leol/GIG craidd, i ddefnyddio'r Gronfa.**

### Buddsoddi i Arbed neu gronfa gydweithio ranbarthol?[43]

71. Ym mis Hydref 2012, cyhoeddodd Carl Sargeant AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, ei fod yn creu cronfa newydd gwerth £10 miliwn nad oes angen ei ad-dalu er mwyn cefnogi awdurdodau lleol i ddarparu prosiectau cydweithio rhanbarthol.[44]

72. Mewn gohebiaeth i ymchwiliad y Pwyllgor, esboniodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau:

> "Sometimes a grant scheme will be more appropriate than invest-to-save, for example where regional collaborative projects may not have an initial saving stream but may be intended to bring significant benefits in terms of resilience of service improvement or may have longer term financial benefits."[45]

73. Yn ystod ei thystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14, gwnaeth Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ, sylw am y gwahaniaethau rhwng y gronfa gydweithio rhanbarthol a'r Gronfa Buddsoddi i Arbed.

74. Dywedodd:

> "It [y gronfa gydweithio ranbarthol] is a grants fund, so they do not have to repay it, quite clearly. It is to incentivise change in regional collaboration, and there are times when invest-to-save is just not viable for a project proposal. It is a very small amount of money in the scheme of things, in the context of a

---

[43] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 16 Ionawr 2013, paragraffau 90-100
[44] Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol, Y Gweinidog yn cyflawni'r addewid i roi mwy o arian i Awdurdodau Lleol, 16 Hydref 2012
[45] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, llythyr gan Carl Sargeant at Jocelyn Davies, 5 Ionawr 2013

£4 billion-plus RSG, but local government and the public sector want support and backing for the collaborative agenda, and this is one way in which the Minister has taken it forward."[46]

75. Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2013, dywedodd y Gweinidog Cyllid:

> "I think that it has been very valuable, in terms of us working together, that we have clarified the difference between them and the opportunities. If you look at the regional collaboration fund, it offers a one-off grant. It is important that that is a grant that can help to drive collaboration. It may not have that recyclable loan repayment as part of its main intention, but, obviously, we must have value for money in terms of the regional collaboration fund. So, it has its place, and there is close working between our officials and the regional collaboration fund officials."[47]

76. Rydym yn nodi'r gwahaniaeth rhwng y gronfa gydweithio ranbarthol a'r Gronfa Buddsoddi i Arbed, ac yn deall bod swyddogion sy'n asesu cynigion yn rhydd i gyfeirio ceisiadau a fyddai'n gweddu'n well i'r cynllun arall. Fodd bynnag, nid ydym yn gwbl argyhoeddedig ei bod hi'n angenrheidiol creu'r gronfa gydweithio ranbarthol o gofio bod y Gronfa Buddsoddi i Arbed wedi cael ei defnyddio i annog cydweithio, ac yn cynnig gwerth am arian clir drwy'r ad-daliadau. Rydym yn pryderu, yn sgîl y penderfyniad hwn, y bydd awdurdodau lleol yn ceisio cymhorthdal gan gronfa gydweithio ranbarthol a allai gynnig gwerth am arian sy'n llai tryloyw na'r benthyciad sy'n rhaid ei ad-dalu drwy'r Gronfa Buddsoddi i Arbed.

**Er mai cynllun arbedion sy'n annog cydweithio yw buddsoddi i arbed, rydym yn argymell y dylai'r gronfa gydweithio ranbarthol – er ei bod yn gronfa sy'n canolbwyntio ar gydweithio – gynhyrchu arbedion i ddangos ei bod yn cynnig gwerth am arian.**

---

[46] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 25 Hydref 2012, paragraff 80
[47] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 16 Ionawr 2013, paragraff 94

# Atodiad A

## Cylch Gorchwyl

Ystyried yr effaith y mae'r Gronfa Buddsoddi i Arbed wedi'i chael hyd yma, ac a yw'n cyflawni y dibenion a fwriadwyd (hynny yw, helpu sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus, drwy sicrhau bod y gwaith o newid eu ffordd o ddarparu gwasanaethau yn mynd rhagddo mewn modd effeithlon, effeithiol a chynaliadwy).

Bydd y prif gwestiynau'n cynnwys:

- Pa mor eang fu'r defnydd o'r Gronfa, gan pa sectorau ac ar gyfer pa fath o brosiectau?
- Pa wersi a ddysgwyd ac a yw arfer da yn cael ei hyrwyddo/rhannu ar draws y sector cyhoeddus yn ehangach yng Nghymru?
- A all yr arbedion a sicrhawyd o ganlyniad i ddyfarnu rhoddion o'r Gronfa gael eu cyfiawnhau, ac a yw hyn yn cynrychioli gwerth am arian?
- Sut y penderfynir ar ad-daliadau, y cynnydd ar ad-daliadau hyd yma a phryd/os bydd y Gronfa yn gallu ariannu ei hunan?
- Ystyried unrhyw rwystrau i fanteisio ar y Gronfa (hynny yw, a oes unrhyw elfennau o broses y Gronfa sy'n ei gwneud yn anodd cymryd rhan yn y cynllun?)

## Atodiad B

Rhestr o'r prosiectau buddsoddi i arbed y bu aelodau'r Pwyllgor yn ymweld â hwy
www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s14265/FIN4%2003-13%20Paper%204%20-%20Invest%20to%20Save%20visits.pdf

Cafodd y Pwyllgor adborth ynghylch ymweliadau Aelodau yn y cyfarfod ar 16 Ionawr 2013. Gellir gweld cofnod o'r cyfarfod ar Senedd.tv neu yng Nghofnod y Trafodion.
www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s13315/16%20January%202013.pdf

## Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r sesiynau tystiolaeth lafar [http://www.senedd.cynulliadcymru.org/ieIssueDetails.aspx?IId=4667&Opt=3](http://www.senedd.cynulliadcymru.org/ieIssueDetails.aspx?IId=4667&Opt=3)

*7 Tachwedd 2012*

| | |
|---|---|
| Jane Hutt, y Gweinidog Cyllid | Llywodraeth Cymru |
| Richard Clarke, Pennaeth Buddsoddi i Arbed | Llywodraeth Cymru |
| Jeff Andrews, Cynghorydd Arbennig | Llywodraeth Cymru |

*21 Tachwedd 2012*

| | |
|---|---|
| David Sutherland, Pennaeth Technoleg, Eiddo a Gwasanaethau Cwsmeriaid | Cyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr |
| Dr Rosie Plummer, Cyfarwyddwr | Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru |
| Clive Edwards, Rheolwr Gweithrediadau a Chyfleusterau | Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru |
| Fiona Jenkins, Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddor Iechyd | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Lynne Aston, Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |

*5 Rhagfyr 2012*

| | |
|---|---|
| Gretel Leeb, Uwch Swyddog Cyfrifol | Swyddog Gweithredol Rhaglen 'Cymru Fyw' |
| Rob Bell, Adran Gyllid | Rhaglen 'Cymru Fyw' |

*16 Rhagfyr 2012*

| | |
|---|---|
| Jane Hutt, y Gweinidog Cyllid | Llywodraeth Cymru |
| Richard Clarke, Pennaeth Buddsoddi i Arbed | Llywodraeth Cymru |
| Jeff Andrews, Cynghorydd Arbennig | Llywodraeth Cymru |

## Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=4667&Opt=0

| *Sefydliad* | *Cyfeirnod* |
|---|---|
| Y Gweinidog Cyllid, Llywodraeth Cymru | FIN(4) 19-12 (p1) |
| Cyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr | FIN(4) 20-12 (p1) |
| Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru | FIN(4) 20-12 (p2) |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | FIN(4) 20-12 (p3) |
| Rhaglen 'Cymru Fyw' | FIN(4) 21-12 (p1) |